**Communities and Culture Committee**

**Y Pwyllgor Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru** National Assembly for **Wales**

At yr ymgyngoreion ar y rhestr amgaeedig

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

18 Ionawr 2011

Annwyl gyfaill,

## Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant: Effaith bosibl Mesur Seneddol Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru

Mae Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad i effaith bosibl Mesur Seneddol Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Grŵp o wleidyddion yw'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant a sefydlwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i ofyn cwestiynau anodd i Lywodraeth Cymru am ei gwaith i wella diogelwch cymunedol, cynhwysiant cymunedol, tai, yr iaith Gymraeg, chwaraeon a diwylliant.

Ffon / Tel: 029 20 898736
E-bost / E-mail:sandy.mewies@wales.gov.uk

Weithiau, bydd yn gwneud hyn drwy gynnal ymchwiliad i fater penodol. Mae hyn yn golygu siarad â nifer o wahanol bobl i'n helpu i ddysgu am fater, ac yna llunio adroddiad a fydd yn gwneud argymhellion i'r Llywodraeth.

Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Gallwch ddarganfod mwy am waith y Pwyllgor a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn [www.cynulliadcymru.org](www.cynulliadcymru.org)

## Cefndir yr ymchwiliad

Yn dilyn yr etholiad cyffredinol yn 2010, gwnaeth Llywodraeth y DU yr ymrwymiad a ganlyn fel rhan o gytundeb y glymblaid:

> "we will introduce measures to make the police more accountable through oversight by a directly elected individual, who will be subject to strict checks and balances by locally elected representatives."[1]

Ar 26 Gorffennaf 2010, cyflwynwyd papur ymgynghori gan y Gwir Anrhydeddus Theresa May AS, yr Ysgrifennydd Cartref, sef *Policing in the 21st Century: Reconnecting police and the people*[2]. Dywedodd bod diwygio'r heddlu yn flaenoriaeth oherwydd:

> "for too long, people have been faced with crime levels that are too high and a police service that has been too focused on Whitehall targets to really get to grips with what matters locally."[3]

Ar hyn o bryd, caiff y cyfrifoldeb dros blismona ei rannu rhwng yr Ysgrifennydd Cartref, y Prif Gwnstabliaid ac awdurdodau'r heddlu, o dan y strwythur teiran a sefydlwyd gan *Ddeddf yr Heddlu 1964*.

O dan y strwythur presennol, mae'r Ysgrifennydd Cartref yn atebol i Senedd y DU am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol yr heddlu yng Nghymru a Lloegr a chynnal safonau sylfaenol y gwasanaeth; mae'r Prif Gwnstabliaid yn gyfrifol am effeithiolrwydd gweithredol eu lluoedd eu hunain; ac mae awdurdodau'r heddlu yn gosod cyfeiriad strategol y lluoedd unigol ac yn dwyn y Prif Gwnstabliaid i gyfrif.

O dan gynigion y Llywodraeth, byddai Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a etholir yn uniongyrchol yn disodli awdurdodau'r heddlu, gan eu diddymu. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn bwriadu sefydlu cyrff newydd—a elwir yn Banelau Heddlu a Throseddau—ym mhob ardal heddlu i graffu ar waith y comisiynwyr heddlu a throseddau.

---

[1] Llywodraeth EM, *The Coalition: our programme for Government*, 2010.
[2] Y Swyddfa Gartref, *Policing in the 21st Century: Reconnecting police and the people*, Cm 7925, Gorffennaf 2010.
[3] Y Swyddfa Gartref, *Radical Reforms for Police Announced*, Datganiad i'r Wasg, 26 Gorffennaf 2010

**Mewn perthynas â Chymru,** mae'r papur ymgynghori yn nodi:

> "The Government will work closely with the Welsh Assembly Government to ensure that the framework within which the directly elected Commissioners for the four forces in Wales operate reflects and respects devolved responsibilities."[4]

Cafodd y *Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol* ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Tachwedd 2010.

Mae prif ddarpariaethau'r Mesur yn cynnwys:

- disodli awdurdodau'r heddlu gan gomisiynwyr heddlu a throseddau a gaiff eu hethol yn uniongyrchol. Y bwriad yw cyflwyno hyn o fis Mai 2012;

- gwneud newidiadau i *Ddeddf Trwyddedu 1993* er mwyn rhoi rhagor o bwerau i awdurdodau lleol a'r heddlu ymdrin â mannau sy'n achosi problemau;

- cyflwyno system o waharddiadau dros dro ar gyfer sylweddau seicoweithredol newydd—y rhai 'anterth cyfreithlon' fel y'u gelwir, fel GBL a BZP—tra mae arbenigwyr annibynnol yn ystyried y materion iechyd;

- adfer yr hawl i gynnal protestiadau di-drais o amgylch y Senedd, gan sicrhau, hefyd, bod pawb yn gallu cael mynediad at Parliament Square drwy ddiddymu adrannau 132-138 o *Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu (SOCPA) 2005* a gwahardd gwersylloedd a gweithgareddau aflonyddol eraill ar Parliament Square;

- newid y broses o gyhoeddi gwarant arestio preifat ar gyfer troseddau awdurdodaeth cyffredinol.[5]

Mae'r Mesur Seneddol yn ymestyn yn bennaf i Gymru a Lloegr er bod rhai darpariaethau yn ymestyn i'r Alban a Gogledd Iwerddon (o ran camddefnyddio cyffuriau).

Nid yw plismona na thrwyddedu, sef y prif feysydd polisi a gaiff eu cwmpasu gan y Mesur, wedi'u datganoli i Gymru. Fodd bynnag, mae diogelwch cymunedol yn faes datganoledig, ac mae'n plethu'n agos â phlismona. Yn ogystal, mae rhai cymalau yn darparu ar gyfer trefniadau penodol i Gymru, yn nodedig i Aelodau'r Cynulliad gael eu penodi gan Weinidogion Cymru i bob Panel Heddlu a Throseddau.

Gan hynny, mae'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant wedi dewis canolbwyntio'r ymchwiliad yn bennaf ar effaith y Mesur Seneddol ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru, sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

---

[4] Op.cit., *Policing in the 21st Century*, para. 2.11
[5] Gwefan y Swyddfa Gartref, *Police Reform and Social Responsibility Bill* [fel ar 6 December 2010]

## Cylch gorchwyl

Bydd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn:

- Archwilio effaith bosibl y Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried:
    - Effaith bosibl y Mesur ar ymgysylltiad cymunedol yng Nghymru, a gallu'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau i gynrychioli cymunedau ar lefel yr ardaloedd heddlu mewn modd effeithiol.
    - Sut y caiff Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol ehangach yng Nghymru eu heffeithio o dan y trefniadau plismona newydd.
    - Goblygiadau ariannol y Mesur a'r canlyniadau ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru.

- Ystyried effaith bosibl y Mesur ar atebolrwydd democrataidd plismona a diogelwch cymunedol yng Nghymru.

- Ystyried rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer cymeradwyo penodi cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ar y Panelau Heddlu a Throseddau yng Nghymru.

## Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor yn y cyfeiriad uchod, i gyrraedd erbyn dydd Gwener 4 Chwefror 2011 fan bellaf (peidiwch ag anfon gohebiaeth yn uniongyrchol at Gadeirydd y Pwyllgor, neu Aelodau unigol). Mae'r Pwyllgor yn ymddiheuro bod y cyfnod ymgynghori ar gyfer yr ymchwiliad hwn yn fyr.

Os yw'n bosibl, anfonwch fersiwn electronig MS Word neu fformat testun cyfoethog drwy e-bost at culture.committee@wales.gov.uk.

Nodwch yn eich papur a fyddai diddordeb gennych mewn cyflwyno eich safbwyntiau i'r Pwyllgor yn bersonol.

Dylech gychwyn eich cyflwyniad drwy ddarparu rhywfaint o wybodaeth amdanoch eich hun, neu'ch sefydliad, cyn amlinellu eich safbwyntiau a'ch profiadau mewn cysylltiad â rhai o'r meysydd canlynol, neu'r cyfan ohonynt. Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn, a bydd y Pwyllgor yn croesawu unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i gylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn.

1. Beth yw goblygiadau Mesur Seneddol Llywodraeth y DU ynghylch diwygio'r heddlu a chyfrifoldeb cymdeithasol ar gyfer ymgysylltiad cymunedol yng Nghymru? A gredwch y bydd Comisiynwyr yr Heddlu—fel y'u disgrifir yn y Mesur—yn gallu cynrychioli cymunedau ar lefel yr ardaloedd heddlu mewn modd effeithiol? Yn eich tyb chi, pa oblygiadau sydd gan y Mesur ar gyfer cynnwys dioddefwyr a thystion yn y gwaith o wella plismona a diogelwch cymunedol yng Nghymru?

2. Yn eich tyb chi, sut bydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol ehangach yng Nghymru yn cael eu heffeithio o dan y trefniadau plismona newydd a greir gan y Mesur?

3. A gredwch y bydd y Mesur yn cynyddu atebolrwydd democrataidd diogelwch cymunedol a phlismona yng Nghymru?

4. Yn eich tyb chi, pa effaith (os o gwbl) fydd penodi Comisiynwyr yr Heddlu yn ei chael ar strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, "*Yr Hawl i fod yn Ddiogel.*"?

5. Yn eich tyb chi, pa effaith fydd ymdrechion y Mesur i leihau pa mor rhwydd yw hi i gael gafael ar ddiodydd alcoholig yn ei gael ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru?

6. Pa mor agos y mae cynigion y Mesur yn cyd-fynd â strategaeth camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cymru, yn eich barn chi?

7. Yn eich tyb chi, beth yw goblygiadau ariannol y Mesur? A fydd ganddynt ganlyniadau ehangach ar gyfer diogelwch cymunedol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru?

8. Yn ei ffurf bresennol, mae'r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn nodi y dylai'r Panelau Heddlu a Throseddau gynnwys "un aelod a benodir gan Weinidogion Cymru o blith y cynrychiolwyr etholedig lleol," ac mae'r Nodiadau Esboniadol y Mesur yn nodi y dylai'r panelau gynnwys "aelod ychwanegol a benodir gan Weinidogion Cymru o blith Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru." Pwy ddylai cynrychiolaeth Llywodraeth Cymru ar y Panelau Heddlu a Throseddu ei gynnwys, yn eich barn chi?

9. A fydd penodi Comisiynwr Heddlu a etholir yn lleol yn rhoi gormod o rym i un unigolyn?

10. A yw cynigion y Mesur ar gyfer Panelau Heddlu a Throseddau yng Nghymru yn cynnig digon o gyfle i ddwyn gwaith Comisiynwyr yr Heddlu i gyfrif, yn enwedig yng nghyswllt diogelwch cymunedol?

Mae'r Pwyllgor wedi gwahodd tystiolaeth gan y rhai ar y rhestr ddosbarthu atodedig (Atodiad 1).

Fodd bynnag, **byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr ymlaen at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt ar y rhestr ond a hoffai gyfrannu at yr adolygiad o bosibl.**

Gosodwyd copi o'r llythyr hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol gyda gwahoddiad agored i gyflwyno safbwyntiau.

## Datgelu gwybodaeth

*Dylai tystion fod yn ymwybodol, pan fo tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i chyflwyno i bwyllgor, y caiff ei thrin fel eiddo'r pwyllgor. Mae'n fwriad gan y Cynulliad i gyhoeddi papurau ysgrifenedig ar ei wefan, a gallant gael eu hargraffu gyda'r adroddiad. Fel y cyfryw, gofynnir i sefydliadau sydd am gyfrannu i'r ymchwiliad sichrau fod trefniadau mewn lle er mwyn i'w tystiolaeth fod ar gael yn unol ag unrhyw bolisiau gwybodaeth cyhoeddus sydd ganddynt eisoes (er enghraifft polisiau, datganiadau neu gynlluniau iaith Gymraeg.*

*Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.*

*Fodd bynnag, os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.*

*Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.*

Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor a'i ymchwiliad i'w chael yn:
www.cynulliadcymru.org

Yn gywir

**Tom Jackson**
**Clerc y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**

**Annexe 1**

Achub y Plant Cymru
Age Cymru
Anabledd Cymru
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Awdurdod Heddlu De Cymru
Awdurdod Heddlu Dyfed Powys
Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru
Awdurdod Heddlu Gwent
Awdurdodau Heddlu Cymru
Awtistiaeth Cymru
Barnardos Cymru
Black Association of Women Stepping Out
Black Environment Network (Gogledd Cymru)
Black Voluntary Sector Network Wales
Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru
Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru
Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gwent
Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Powys
Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
Byddin yr Iachawdwriaeth
CAB Cymru
Canolfan Adsefydlu Brynawel House
Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro
Clybiau Plant Cymru
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Consortiwm Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Awdurdodau Lleol Cymru
Crossroads Cymru
Cynghrair Efengylaidd Cymru
Cynghrair Gwirfoddol Tor-faen
Cyngor Asiaidd Cymru
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd
Cyngor Gofal Cymru
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Cymdeithas Bacistanaidd Casnewydd a Chyngor Asiaidd-Gymreig Gwent
Cymdeithas Cenedlaethol Plant Byddar
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Ceredigion

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Cymdeithas Gweithwyr Proffesiynol Mwslimaidd
Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru
Cymdeithas Lles Bangladeshaidd
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru
Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru
Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru
Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru
Cymdeithas y Gymuned Swdanaidd
Cymdeiths Saheli Cymru
Cymorth i Ddioddefwyr Cymru
Cymorth i Ferched Cymru
Cymru Yfory
Cyswllt Ieuenctid Cymru
Cytun
Chwarae Cymru
Chwarae Teg
Economic and Social Research Council
Esgobaeth yr Eglwys Babyddol Caerdydd
ESTYN
Gofalwyr Cymru
Grwp Menywod Asiaidd
Grwp Menywod Bangladeshaidd
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Ieuenctid Cymru
Interlink
Joint Committee for Ethnic Minorities in Wales
Joint Council for the Welfare of Immigrants
Llais Ffoaduriaid Cymru
Llywodraeth Cymru
Mantell Gwynedd
MEWN Cymru
NSPCC Cymru
Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru
Plant yng Nghymru
Polish Welsh Mutual Association
Prosiect Cyfraith y DU a HIV/AIDS
Race Equality First
Rhwydwaith Gwrth-dlodi Cymru
Rhwydwaith Gydraddodleb Hiliol Gogledd Cymru
SCOPE Cymru

Sefydliad Joseph Rowntree
Shelter Cymru
Shout
SNAP Cymru
Stonewall Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
Tenovus
Undeb y Mamau yng Nghymru
UNICEF UK
UNISON Cymru
Y Ddraig Ffynci
Y Ganolfan Wybodaeth Somali
Y Ganolfan Ymchwil Polisi Ymfudo
Y Gronfa Loteri Fawr
Y Gymdeithas Heddlu Cristnogol
Y Pwyllgor Gwasanaethu Cymunedol Tseiniaidd
Y Samariaid
Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai
Ymddiriedolaeth y Tywysog – Cymru
Yr Eglwys yng Nghymru
Yr Ysgrifennydd Cartref
YWCA